Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Trosedd a Chyfiawnder

**Manon Roberts**

Mawrth 2021

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a chymhwyso tystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i syntheseiddio a symbylu tystiolaeth bresennol a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol o'r llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu ffyrdd newydd o fynd i'r afael â heriau strategol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwyso tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio er mwyn mynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; ac mae'n
- Tynnu ar ei waith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus, i wella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella llunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisïau.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i raglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i ddatblygu'r gallu ymhlith ymchwilwyr i ymgymryd ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith go iawn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Arianwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas lewyrchus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sy'n benderfynol o adeiladu perthnasoedd rhyngwladol cryf wrth ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol** (ESRC) yn rhan o *UK Research and Innovation*, sefydliad newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y DU, *Innovate UK* a *Research England* ynghyd i fwyafu cyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau ar gyfer gwaith ymchwil ac arloesi.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys

4

Cefndir 6

Cyflwyniad 6

'Egluro neu ddiwygio' 8

Data ar anghyfartalwch hiliol 10

Mynd i'r afael â throseddau casineb 11

Lleihau trais yn erbyn menywod a merched 15

Y system cyfiawnder ieuenctid 17

Mynediad at gyfiawnder 21

Pwerau a liferi polisi Llywodraeth Cymru 24

Cyfeirnodau 25

Cyfeirnodau at y gyfres adrodd 30

Atodiad 2: Argymhellion cylchol 31

# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o chwech sy'n darparu tystiolaeth annibynnol i lywio datblygiad Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.

- Mae'n canolbwyntio ar y system cyfiawnder troseddol, a nodir yn aml fel maes lle bu anghyfiawnder hiliol amlwg a chynyddol.

- Er nad yw llawer o'r polisi cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli yng Nghymru, mae camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â / lleihau troseddau a hyrwyddo adsefydlu, a grynhoir yma. Dylai'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol flaenoriaethu'r rhain.

- Dylai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y farnwriaeth a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi gyhoeddi strategaeth ar bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru ac adrodd yn flynyddol i'r Senedd.

- Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn yr egwyddor 'egluro neu ddiwygio' i bolisïau datganoledig sy'n chwarae rôl o ran achosi anghyfartalwch hiliol yn y system cyfiawnder troseddol.

- Mae yna ystod o astudiaethau ac arolygon presennol y dylid eu gwella a / neu ychwanegu atynt er mwyn darparu gwell data ar anghyfartalwch hiliol yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys ehangu arolwg carcharorion ACE i boblogaethau carchardai benywaidd ac i gynnwys dadansoddiad o grwpiau ethnig.

- Dylid gwella prosesau cofnodi a monitro data ethnigrwydd ar draws ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol, e.e. gwaharddiadau ysgolion, cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth.

- Dylid cyflawni gwelliannau i ddata ar nifer yr achosion o droseddau casineb yng Nghymru trwy ychwanegu cwestiynau at Arolwg Cenedlaethol Cymru neu ariannu Arolwg Trosedd a Chyfiawnder i Gymru.

- Mae argymhellion eraill sy'n ymwneud â mynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru yn cynnwys cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau troseddau casineb, gyda'r nod o ehangu'r ddarpariaeth gyfredol; cyfeirio'n well at ymatebion cyfreithiol a sefydliadol i droseddau casineb, gan gynnwys trwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth; a mabwysiadu dulliau ataliol troseddau casineb yn ehangach.

- Dylid mabwysiadu strategaeth aml-asiantaeth a chyfannol i fynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru, sy'n cynnwys ymyriadau addysgol sy'n ceisio lleihau rhagfarn a chodi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol.

- Dylai Llywodraeth Cymru ddiogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau Trais yn erbyn

Menywod a Merched (VAWG) arbenigol yng Nghymru i ateb y galw a ragwelir yn ddigonol yn ystod ac ar ôl y pandemig.

- Yn ogystal, mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion penodol gwahanol grwpiau o fewn rhaglenni tramgwyddwyr presennol trwy hyfforddiant ymarferwyr, er mwyn hwyluso gweithio traws-ddiwylliannol effeithiol.

- Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo mwy o flaenoriaeth ac adnoddau i ymchwilio i'r ffactorau cydberthnasol sy'n cyfrannu at droseddu plant fel y maent yn ymwneud yn benodol â phlant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; a sut mae'r rhain yn torri i lawr ar draws grwpiau ethnig penodol.

- Dylid defnyddio canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn i lywio dyluniad ymyriadau atal a dargyfeirio ar gyfer plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n droseddwyr tro cyntaf neu sydd mewn perygl o droseddu, gyda'r nod o atal y llif at systemau cyfiawnder ffurfiol ieuenctid ac oedolion.

- Dylai Llywodraeth Cymru annog gweithio mewn partneriaeth rhwng heddluoedd a Thimau Troseddu Ieuenctid i gynyddu nifer yr arferion dargyfeirio sy'n dibynnu ar feini prawf mwy hyblyg na derbyniadau gorfodol, sy'n effeithio'n anghymesur ar blant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

- Dylai rhaglenni adsefydlu neu ymyriadau ar gyfer y rhai sydd eisoes yn ymwneud yn ffurfiol â'r system cyfiawnder ieuenctid hefyd gael eu teilwra ar gyfer plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gyda'r nod o gynyddu ymatebolrwydd.

- Gallai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Thimau Troseddu Ieuenctid Cymru ac asiantaethau sy'n gweithio'n agos gyda nhw (e.e. gwasanaethau plant ac ysgolion), anelu at arwain dull unigryw wedi'i dargedu at flaenoriaethu anghenion plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymwneud â, neu sydd mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid.

- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu egwyddorion a strategaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddiriedaeth mewn prosesau cyfiawnder troseddol o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig, er mwyn gwella mynediad at gyfiawnder ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

- Yn gyffredinol, mae gwerth mewn canolbwyntio ar argymhellion sy'n dod o fewn pwerau Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar feysydd presennol lle mae dulliau cyfiawnder Cymru wedi gwyro oddi wrth genhedloedd eraill y DU, neu lle mae posibilrwydd i wneud hynny yn y dyfodol.

# Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a fydd yn cael ei ddylunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol strwythurol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae'r adroddiad hwn yn un o chwech a gynhyrchwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddarparu tystiolaeth annibynnol i lywio datblygiad y Cynllun Gweithredu (gweler Atodiad 1). Mae'n canolbwyntio ar dystiolaeth ac argymhellion ar gyfer gweithredu sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol ym maes trosedd a chyfiawnder.

## Terminoleg

**Wrth ysgrifennu ein hadolygiad, rydym yn osgoi defnyddio'r acronymau / termau 'BAME' neu 'BME', ac eithrio lle mae hyn yn disgrifio enw sefydliad neu rwydwaith, gan ein bod yn cydnabod bod y rhain yn dermau a herir a gellir eu hystyried yn dermau sy'n gwarthnodi, dadbersonoli ac 'aralloli'. O ganlyniad, rydym yn ceisio cyfeirio at bobl a chymunedau penodol lle bynnag y bo modd. Lle nad yw hyn yn bosibl, ac er y bydd unrhyw gategori cyffredinol yn amherffaith, rydym yn defnyddio'r term 'Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig'.**

# Cyflwyniad

Mae'r system cyfiawnder troseddol yn aml yn cael ei gweld fel maes lle mae anghyfiawnderau hiliol yn amlwg, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y broblem wedi bod yn gwaethygu flwyddyn ar ôl blwyddyn (Lammy, 2017; Jones, 2020). Yng Nghymru, mae pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol: fel dioddefwyr troseddau, wrth gael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu, o fewn poblogaeth y carchardai - sy'n dangos lefelau uwch o anghymesuredd hiliol o gymharu â Lloegr - ac o fewn y boblogaeth sydd ar brawf (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), 2020; Y Swyddfa Gartref, 2019a; Jones, 2020).

Mae diffyg tystiolaeth amlwg o ran adsefydlu unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn effeithiol, ond mae tystiolaeth i awgrymu bod triniaeth ddiwylliannol ymwybodol a sensitif yn tueddu i arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol (Shingler a Pope, 2018). O ganlyniad, mae ymchwilwyr wedi dod i'r casgliad bod angen cynyddu perthnasedd rhaglenni ac ymyriadau adsefydlu i droseddwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Nid yw cyfiawnder troseddol, sef yr heddlu, y gwasanaeth prawf, carchardai, y llysoedd a'r 'rhan fwyaf o feysydd cyfraith hawliau', yn dod o dan bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019). O ganlyniad, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru weithredu ar draws ‘ymyl danheddog cymwyseddau a chyfrifoldebau croestoriadol’ a gweithio gydag, a thrwy, asiantaethau eraill i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn y system cyfiawnder troseddol (Jones a Jones, 2019, t.5).

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wasanaethau allweddol sy'n cael effaith fawr ar fywydau'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys iechyd meddwl ac addysg carcharorion, cyllid yr heddlu, trais domestig a diogelwch cymunedol. Mae hefyd yn gallu annog dulliau cyfannol ac ataliol o fynd i'r afael â throseddu, a'i leihau, a hyrwyddo adsefydlu trwy ei reolaeth uniongyrchol dros, ac ariannu, ystod o wasanaethau, gan gynnwys iechyd, addysg, gofal cymdeithasol plant, tai a digartrefedd, a gwasanaethau ieuenctid a chymunedol. Yn ogystal, gall ddefnyddio ystod o 'bwerau meddal' (er enghraifft dylanwad, addysg a rhannu arfer da) i weithio'n rhagweithiol gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael ag anghyfiawnderau hiliol a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arnynt i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu trwy Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2020 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r hyn sy'n gweithio o ran lleihau anghyfartalwch hiliol yn y system cyfiawnder troseddol mewn perthynas â chwe maes allweddol:

- ‘Egluro a diwygio’;
- Data ar anghyfartalwch hiliol;
- Mynd i’r afael â throseddau casineb;
- Lleihau trais yn erbyn menywod a merched;
- Y system cyfiawnder ieuenctid; a
- Mynediad at gyfiawnder.

Nodwyd y gweithredoedd hyn trwy bedwar cam dadansoddi:

- Yn gyntaf, gwnaethom ddadansoddi'r dystiolaeth, yr adroddiadau polisi a'r adolygiadau gorau sydd ar gael, sy'n gwneud argymhellion ar gyfer lleihau anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru a'r DU i nodi argymhellion cylchol neu 'mathau' o ymyriadau (gweler Atodiad 2).
- Yna, fe wnaethom ni brofi a mireinio'r rhain gydag arbenigwyr academaidd.
- Nesaf, gwnaethom gynnal adolygiad pellach o dystiolaeth llenyddiaeth academaidd a llwyd sy'n gysylltiedig â phob un o'r ymyriadau hyn, gyda'r nod o sefydlu pa rai o'r argymhellion hyn sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf os cânt eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.
- Yn olaf, adolygwyd yr adroddiad gan gymheiriaid ac arbenigwyr yn y maes, sef Dr Roxanna Dehaghani (Prifysgol Caerdydd) a Dr Jason Arday (Prifysgol Durham).

Mae'r achosion, y canlyniadau a'r atebion i anghydraddoldeb hiliol yn rhyng-gysylltiedig ac felly mae angen newid ar draws ystod o feysydd polisi a gwasanaethau cyhoeddus a thu hwnt i'r sector cyhoeddus. Felly, dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â phum adroddiad cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar **gyflogaeth ac incwm, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogaeth ac incwm a thai a llety** (gweler Atodiad 1), ac adroddiad cyffredinol (sydd ar ddod) sy'n tynnu canfyddiadau ac argymhellion trawsbynciol at ei gilydd.

# 'Egluro neu ddiwygio'

**Argymhellion**

- Dylai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y farnwriaeth a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi gyhoeddi strategaeth ar bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru ac adrodd yn flynyddol i'r Senedd.
- Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn yr egwyddor 'egluro neu ddiwygio' i gymwyseddau datganoledig sy'n chwarae rôl mewn anghyfartalwch hiliol yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae mwyafrif yr argymhellion a amlinellwyd yn adolygiad Lammy 2017 o driniaeth unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder troseddol, a'r canlyniadau ar eu cyfer, yn cael eu symud ymlaen gan lywodraeth y DU, ac felly nid ydynt wedi'u hamlinellu'n fanwl yn yr adroddiad hwn. Serch hynny, gallai'r egwyddor o 'egluro neu ddiwygio' yng nghyd-destun anghyfartalwch hiliol, egwyddor y mae Lammy yn awgrymu y dylai lywio gwaith pob asiantaeth cyfiawnder troseddol, gael ei gweithredu yng Nghymru. Mae'r egwyddor hon yn nodi:

> **"Os na all asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol [CJS] ddarparu esboniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth am yr anghyfartalwch ymddangosiadol rhwng grwpiau ethnig, yna dylid cyflwyno diwygiadau i fynd i'r afael â'r anghyfartalwch hynny."**
> (Adolygiad Lammy, 2017)

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, argymhellodd adroddiad y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru (2019) y dylai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y farnwriaeth a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi gyhoeddi strategaeth ar bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru (o ran tan-gynrychiolaeth y rhai sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol a'r gorgynrychiolaeth ymhlith y rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol) ac adrodd yn flynyddol i'r Senedd. Gallai hyn ddarparu ffordd haws i Lywodraeth Cymru nodi tueddiadau mewn anghymesuredd hiliol yn y gweithlu a thrwy gydol y daith cyfiawnder troseddol, a strategaethau i fynd i'r afael ag anghyfartalwch, yn ogystal â darparu cyfrwng ar gyfer monitro cynnydd.

Mae llawer o achosion gorgynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gorwedd y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol - er enghraifft, profiadau o dlodi a gwaharddiadau parhaol o'r ysgol. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth uniongyrchol dros lawer o asiantaethau cyfiawnder troseddol, ac felly'r strategaethau y gallant neu na allant eu mabwysiadu i fynd i'r afael ag anghyfartalwch hiliol, gallai gymhwyso'r egwyddor 'egluro neu ddiwygio' i'r polisïau a'r gwasanaethau hynny sydd wedi'u datganoli, a thrwy hynny chwarae rôl bwysig o ran dylanwadu ar anghyfartalwch hiliol yn y system cyfiawnder troseddol. Awgrymodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) y gallai hyn gynnwys monitro anghyfartalwch hiliol mewn gwaharddiadau ysgol a phrofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod (ACEs), yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, a rhoi diwygiadau ar waith lle bo angen i fynd i'r afael â'r rhain, gyda nod penodol o atal mynediad neu ail-fynediad i'r system cyfiawnder troseddol.

# Data ar anghyfartalwch hiliol

**Argymhellion**

- Ehangu arolwg carcharorion ACE i boblogaethau carchardai benywaidd.
- Cynnwys dadansoddiad o grwpiau ethnig yn arolwg ACE.
- Dylid gwella prosesau cofnodi a monitro data ethnigrwydd ar draws ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol, e.e. gwaharddiadau ysgolion, cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth.

Er mwyn i gyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill yng Nghymru nodi anghyfartalwch hiliol a chwestiynu a gwella eu harferion, mae angen gwybodaeth a data cadarn arnynt am anghyfartalwch hiliol ar draws pob cam o'r daith cyfiawnder troseddol.

Dadleuodd adolygiad Lammy fod gwell data ar ethnigrwydd yn y system cyfiawnder troseddol yn allweddol o ran craffu a diwygio effeithiol, a nododd nifer o ddiffygion o ran argaeledd data, tryloywder a chysondeb. I ddyfynnu un enghraifft yn unig, nid yw unigolion sy'n ymuniaethu fel Sipsiwn, Roma a Theithwyr, y mae amcangyfrifon yn nodi eu bod yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol o fewn poblogaeth y carchardai, yn cael eu cynnwys yn y systemau monitro cyfiawnder troseddol swyddogol (Lammy, 2017).

Er bod gan Lywodraeth Cymru bwerau cyfyngedig i ddiwygio arferion casglu a monitro data asiantaethau cyfiawnder troseddol, gallai ehangu a gwella rhaglenni casglu data presennol sydd wedi'u datganoli; a darparu data ethnigrwydd cadarn a chywir sy'n berthnasol i'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Er enghraifft, mae Arolwg Carcharorion ACE, sy'n ceisio llywio gweithrediad ymyriadau priodol ac effeithiol ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth (Ford et al., 2019), ar hyn o bryd yn dadgyfuno data mewn i grwpiau 'gwyn' ac 'eraill' yn ei adroddiad, sydd, o ganlyniad, yn golygu nad oes unrhyw fath o graffu manwl ar anghyfartalwch hiliol o ran anghenion a chanlyniadau unigolion yn y system cyfiawnder troseddol. Gan ystyried y croestoriad rhwng hil a rhyw,[1] sy'n arwain at

[1] Mae croestoriad yn cyfeirio at sut mae cyd-brofiadau gwahanol hunaniaethau cymdeithasol (e.e. hil, rhyw, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd) yn cyfuno i ddylanwadu ar brofiadau o fraint neu wahaniaethu.

resymau gwahanol iawn o ran mynediad i'r system cyfiawnder troseddol a phrofiadau rhwng troseddwyr gwrywaidd a benywaidd (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018), byddai ehangu arolwg carcharorion ACE i archwilio profiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod ymhlith poblogaethau carchardai benywaidd yn gam cadarnhaol arall. Yn ogystal, o ystyried yr amrywiaeth sylweddol yn y profiadau a'r canlyniadau rhwng ac o fewn poblogaethau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, byddai gwell dealltwriaeth o gyffredinrwydd profiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod ar draws grwpiau hiliol ac ethnig yng Nghymru yn caniatáu ar gyfer ymyriadau ataliol ac adsefydlu mwy effeithiol a thargedig - er enghraifft, trwy gyfrannu gwell sylfaen dystiolaeth i lywio'r gwaith ar y cyd presennol rhwng yr heddlu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau ACE.[2]

Dim ond un enghraifft yw arolwg carcharorion ACE o ymarferion casglu data presennol y gellid ac y dylid eu cryfhau er mwyn darparu data a all lywio polisïau yn y dyfodol, i wella canlyniadau ar gyfer dynion a menywod Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymwneud â, neu sydd mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae'r un egwyddor yn berthnasol ar gyfer gwell cofnodi a monitro data ethnigrwydd ar draws ffactorau eraill sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol, megis gwaharddiadau ysgol a chyfleoedd cyflogaeth.

# Mynd i'r afael â throseddau casineb

**Argymhellion**

- Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau troseddau casineb, gyda'r nod o ehangu'r ddarpariaeth gyfredol.
- Gwell cyfeirio at ymatebion cyfreithiol a sefydliadol i droseddau casineb, gan gynnwys trwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth.

[2] Mae rhaglen *Early Action Together ACEs* yn cefnogi ac yn darparu hyfforddiant i staff rheng flaen yn yr heddlu, gwasanaethau carchardai a phrawf i weithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (e.e. gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, tai, trydydd sector ac ati) ledled Cymru er mwyn nodi unigolion sy'n agored i niwed, i ymyrryd yn gynnar a'u cadw allan o'r system cyfiawnder troseddol. **https://phw.nhs.wales/services-and-teams/early-action-together/**

- Mabwysiadu dulliau atal troseddau casineb yn ehangach.
- Mabwysiadu strategaeth aml-asiantaeth a chyfannol i fynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru, sy'n cynnwys ymyriadau addysgol sy'n ceisio lleihau rhagfarn a chodi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol.
- Gwella data o ran nifer yr achosion o droseddau casineb yng Nghymru trwy Arolwg Trosedd a Chyfiawnder yng Nghymru, neu trwy ychwanegu cwestiynau am droseddau casineb at Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Diffinnir trosedd casineb fel:

> **“Unrhyw ddigwyddiad sydd gyfwerth â throsedd, yn ôl y gyfraith, sy’n cael ei hystyried fel un a gafodd ei gyrru gan ragfarn neu gasineb ym marn y dioddefwr neu unrhyw berson arall.”** (Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu [APCO], 2005)

Mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru wedi cynyddu’n sylweddol dros y saith mlynedd diwethaf, gan gyrraedd 2,634 o droseddau yn 2019/20 - dwbl y nifer a gofnodwyd yn 2012/13 (Y Swyddfa Gartref, 2013; 2020a). Roedd mwyafrif (65%) y troseddau yn 2019/20 yn droseddau casineb hiliol, sy'n golygu bod grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau ffydd leiafrifol yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Er bod y codiadau o un flwyddyn i’r llall yn seiliedig i raddau helaeth ar welliannau o ran adrodd a chofnodi digwyddiadau,[3] gwelwyd codiadau byrdymor o ran troseddau casineb hiliol neu ar sail crefydd yng Nghymru a Lloegr yn dilyn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn 2016 ac ymosodiadau terfysgol 2017, gan gynnwys ymhlith heddluoedd Cymru (Y Swyddfa Gartref, 2020b).

Mae ystod o asiantaethau - gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020), Race Alliance Wales (2020), EYST Cymru (Wiegand a Cifuentes, 2019), a Race Equality First (Williams a Tregidga, 2013) - wedi gwneud argymhellion sydd wedi'u cynllunio i fynd i’r afael â'r cynnydd mewn troseddau casineb yng Nghymru. Mae rhai yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau a chefnogaeth i ddioddefwyr troseddau casineb. Mae eraill o blaid cyfeirio ymatebion cyfreithiol a sefydliadol yn well er mwyn mynd i'r afael ag ansicrwydd dioddefwyr ynghylch a yw eu profiadau yn

[3] Mae Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr (CSEW), sy'n dibynnu ar erledigaeth hunan-gofnodedig ymatebwyr yr arolwg, yn dangos cwymp mewn troseddau casineb dros y degawd diwethaf. Er nad yw newidiadau mewn arferion cofnodi neu weithgareddau’r heddlu yn effeithio ar amcangyfrifon Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr (CSEW), mae'r dull samplu a nifer yr ymatebwyr yn golygu bod yr amcangyfrifon yn rhy fach i adrodd yn bendant am dueddiadau penodol i Gymru. O ganlyniad, mae diffyg gwybodaeth am gyffredinrwydd, natur a thueddiadau troseddau casineb yng Nghymru.

cynrychioli troseddau casineb; pryder y gallai eu profiadau fod yn rhy ddibwys i gyfiawnhau eu hadrodd; canfyddiad na fydd yr heddlu'n gweithredu; a diffyg cefnogaeth ffurfiol neu ystyrlon (Williams a Tregidga, 2013). Mae argymhellion eraill yn ceisio hyrwyddo dulliau ataliol sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddau casineb.

Mae dogfen Llywodraeth Cymru, 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' (Llywodraeth Cymru, 2014) yn amlinellu tri amcan strategol, sef:

- Ffocws ar atal;
- Cymorth i ddioddefwyr; a
- Gwell ymateb aml-asiantaeth.

Mae hefyd yn rhestru camau penodol i wella arweinyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru i herio a mynd i'r afael â throseddau casineb. Fodd bynnag, ei nod yw mynd i'r afael â throseddau casineb ar draws **yr holl** nodweddion gwarchodedig (Deddf Cydraddoldeb, 2010), yn hytrach na chanolbwyntio'n benodol ar ddioddefwyr troseddau casineb hiliol, sef y math mwyaf cyffredin o droseddau casineb yng Nghymru.

Canfu arolwg *Race Equality First* a chyfweliadau gyda dioddefwyr troseddau casineb yng Nghymru (ar draws yr holl grwpiau nodweddiadol gwarchodedig - darperir manylion pellach isod) fod sbardunau sylweddol i gyflawni troseddau casineb yn cynnwys:

- Anwybodaeth;
- Casineb tuag at grwpiau lleiafrifol; a
- Phortreadau negyddol ac ystrydebol o grwpiau lleiafrifol gan y cyfryngau (Williams a Tregidga, 2013).

Daeth i'r casgliad y gallai newid diwylliannol yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol yng Nghymru gael ei yrru o bosibl gan ymgyrchoedd addysg a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion, sefydliadau addysg uwch, a darparwyr cyfryngau, trwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, partneriaid trydydd sector, a sefydliadau allweddol sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol.

Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd ymyriadau addysgol sy'n ceisio lleihau rhagfarn a chodi ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth, a'u heffaith ar leihau ymddygiad troseddol (Abrams, Swift a Mahmood, 2016). Daeth adolygiad o ymyriadau o'r fath yng Nghymru a Lloegr i'r casgliad ei bod 'yn annhebygol y gall y

rhaglenni hyn ar eu pennau eu hunain leihau nifer y troseddau casineb a gyflawnir bob blwyddyn yn sylweddol' (Walters, Brown a Wiedlitzka, 2016a, t.38).

O ganlyniad, bydd mabwysiadu strategaeth aml-asiantaeth a chyfannol yn hynod bwysig o ran hwyluso'r newid diwylliannol a systemig sy'n angenrheidiol i atal troseddau casineb hiliol yn y tymor hir yng Nghymru, oherwydd bod troseddau casineb yn ffenomen gymhleth sy'n cael ei gyrru gan strwythurau economaidd-gymdeithasol, a ffactorau sefyllfaol a chymdeithasol amrywiol (Walters, Brown a Wiedlitzka, 2016a; 2016b).

Nod Prosiect Ymchwil Troseddau Casineb Cymru Gyfan, a gynhaliwyd gan *Race Equality First*, oedd mynd i'r afael â'r bwlch mewn gwybodaeth a thystiolaeth ar droseddau casineb yng Nghymru trwy gynnal arolwg dioddefwyr a chyfweliadau manwl, er mwyn darparu golwg fwy cynhwysfawr o droseddau casineb yng Nghymru o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael o ddata'r heddlu neu'r Swyddfa Gartref (Williams a Tregidga, 2013). Amlygodd yr adroddiad oedran fel ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar deimladau a phrofiadau dioddefwyr o fregusrwydd mewn ymateb i droseddau casineb a waethygir gan hil. Dangoswyd bod crefydd hefyd yn ffactor sy'n aml yn croestorri â hil fel ffactor ysgogol ar gyfer troseddau casineb, gyda chefnogaeth ymchwil bellach sy'n awgrymu bod dioddefwyr troseddau casineb, mewn 50% o achosion, yn cael eu targedu oherwydd mwy nag un nodwedd hunaniaeth (Chakraborti et al., 2014).

Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar droseddau casineb sy'n gysylltiedig â hil, ac nid yw wedi'i ddiweddaru ers 2013, a ragflaenodd y codiadau a welwyd mewn troseddau casineb a waethygwyd gan hil a chrefydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Archwiliodd adroddiad a gomisiynwyd gan EYST Cymru brofiadau troseddau casineb o fewn y gymuned Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yng nghyd-destun y pandemig Coronafeirws trwy gyfres o fforymau, sy'n darparu mewnwelediadau ansoddol gwerthfawr cyfredol (Saltus, 2020). Fodd bynnag, mae diffyg tystiolaeth hydredol am brofiadau grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn perthynas â throseddau casineb, ac mae hwn yn faes lle mae angen data llawer gwell a manylach. Gellid casglu'r data hwn trwy sefydlu Arolwg Trosedd a Chyfiawnder yng Nghymru (tebyg i Arolwg Trosedd a Chyfiawnder yr Alban), neu ychwanegu cwestiwn am droseddau casineb at Arolwg Cenedlaethol Cymru.

# Lleihau trais yn erbyn menywod a merched

**Argymhellion**

- Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) arbenigol yng Nghymru i ateb y galw a ragwelir yn ddigonol yn ystod ac ar ôl y pandemig.
- Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion penodol gwahanol grwpiau o fewn rhaglenni tramgwyddwyr presennol trwy hyfforddiant ymarferwyr, er mwyn hwyluso gweithio traws-ddiwylliannol effeithiol.

Mae gwasanaethau i fenywod a merched sy'n wynebu trais a cham-drin domestig o dan bwysau cynyddol oherwydd toriadau cyllid, sydd wedi cael effaith anghymesur ar wasanaethau arbenigol ar gyfer menywod a merched Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Pryder allweddol ymhlith gwasanaethau arbenigol yng Nghymru yw colli allan ar gyllid trwy dendrau sy’n cael eu rhoi i ddarparwyr generig mwy o faint sydd â mwy o allu ac amser i ysgrifennu cynigion (Cymorth i Ferched Cymru, 2018). Yn aml, mae gan y darparwyr hyn wybodaeth ac arbenigedd llai arbenigol mewn perthynas ag anghenion cymunedau penodol, sy'n hynod bwysig ar gyfer gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched (VAWG) mewn cymunedau ymylol, lle mae aelodau’r cymunedau yn llai tebygol o ymgysylltu â sefydliadau nad ydynt yn arbenigol (Y Swyddfa Gartref, 2016).

Ar yr un pryd, mae tystiolaeth bod y pandemig Coronafeirws wedi cynyddu cyffredinolrwydd a difrifoldeb trais a cham-drin domestig yn erbyn menywod a merched - gan arwain rhai i gyfeirio at VAWG a’r Coronafeirws fel 'pandemig deuol' yn y DU (Banga a Roy, 2020). Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau arbenigol, tra bod y cyfyngiadau ar symud a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r pandemig wedi ei gwneud yn llawer anoddach i fenywod adael sefyllfaoedd treisgar (Davidge, 2020). Ar gyfer menywod Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, mae’r ‘risg o drais yn cael ei hilioli hefyd’ (Banga a Roy, 2020, t.4), sy'n golygu bod risgiau ac effeithiau trais a cham-drin domestig yn rhyngweithio ag anghydraddoldebau presennol sy'n cael eu gyrru gan wahaniaethu sefydliadol a systemig. Yn syml, mae menywod o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu risg o ganlyniad i'w rhyw a'u hil.

Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos bod menywod a merched Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn mwy o berygl o drais yn gydgasgledig,[4] mae'r mathau o gamdriniaeth a phrofiadau wrth gael mynediad at gymorth yn wahanol mewn ffyrdd allweddol, sy'n golygu bod angen cynnig gwasanaethau cymorth wedi'u teilwra. Er enghraifft, mae menywod Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na menywod Gwyn o ddioddef cam-drin domestig a gyflawnir gan aelodau'r teulu (SYG, 2019). Mae data o Gymru a Lloegr yn awgrymu bod anffurfio organau cenhedlu benywod yn fwy cyffredin mewn cymunedau mudol (Macfarlane a Dorkenoo, 2015), ac mae cam-drin ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod yn fwy cyffredin mewn cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (Bates, 2020). O ran cael mynediad at gymorth, mae ymchwil wedi dangos bod menywod Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau ychwanegol o gymharu â menywod Gwyn Prydeinig wrth adael perthnasau treisgar a chael mynediad at lety diogel, a'u bod yn debyg o fod yn gaeth mewn perthnasoedd treisgar am gyfnodau hirach o gymharu â menywod Gwyn (Thiara and Roy, 2012).

Mae statws mewnfudo a gallu iaith ymhlith y ffactorau a allai fod yn rhwystrau rhag dianc rhag perthnasau treisgar (Heimer, 2019). Gall ffactorau diwylliannol a chrefyddol hefyd groestorri â hil i atal menywod rhag cael mynediad at gefnogaeth. Er enghraifft, gallai fod yn anoddach i fenywod o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig adael priodasau crefyddol oherwydd yr edrychir lawr ar berthnasoedd sy'n chwalu, neu gallant fod mewn perygl o gael eu halltudo gan eu cymunedau am adrodd camdriniaeth (Siddiqui a Patel, 2011). Mae gwahaniaethu ar sail hil yn cyflwyno rhwystr posibl pellach, oherwydd gall profiadau neu ganfyddiadau o hiliaeth sefydliadol atal dioddefwyr rhag adrodd eu camdrinwyr i'r heddlu (Heimer, 2019; Women's Aid, 2009).

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwasanaethau arbenigol ar gyfer dioddefwyr VAWG Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn darparu cefnogaeth fwy effeithiol na gwasanaethau cymorth generig (Larasi, 2013; Thiara a Roy, 2012). Er bod gwasanaethau cymorth yng Nghymru yn cynnwys rhai gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' menywod Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (e.e. BAWSO[5]), mae'r rhain o dan fygythiad oherwydd diffyg cyllid; y costau ychwanegol sy'n gynhenid mewn

---

[4] Mae data SYG o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2015 i'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017 yn dangos bod 7.8% o fenywod rhwng 16 a 59 oed wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Torrodd hyn i lawr fel Gwyn: 8.1%; Ethnigrwydd Cymysg / Lluosog: 13.9%; Prydeinig Asiaidd / Asiaidd: 3.6%; Du / Africanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig: 7.4%; Grŵp ethnig arall: 7.8%. Ffynhonnell: *ONS (2018). Women most at risk of partner abuse*. Ar gael o: **https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/womenmostatriskofpartnerabuse**

[5] **https://bawso.org.uk/**

gwasanaethau arbenigol (e.e. dehongli gwasanaethau a chefnogi menywod mudol heb gefnogaeth arian cyhoeddus); a mecanweithiau cyllido sy'n ffafrio gwasanaethau generig mwy o faint. Wrth edrych y tu hwnt i'r pandemig, mae angen ystyried sut y gall gwasanaethau VAWG arbenigol yng Nghymru ateb y galw cynyddol, o ystyried y rhagfynegiadau y bydd lefelau galw yn parhau'n uchel yn dilyn y pandemig oherwydd effeithiau cronnus VAWG (Banga a Roy, 2020). Mae'r pandemig wedi cael mwy o effaith ar rai grwpiau oherwydd anghydraddoldebau strwythurol sylfaenol (e.e. mewn perthynas ag iechyd, cyflogaeth a thai), ar ben ei effaith ar y risg o drais i fenywod a merched Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mewn ymateb i hyn, gallai Llywodraeth Cymru bwysleisio’r anghydraddoldebau presennol a gyflwynir gan y pandemig i lunio strwythurau cyllido i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn derbyn cyllid digonol ac yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.

Yn ogystal, mae angen rhaglenni neu ymyriadau tramgwyddwyr arbenigol sydd wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau diwylliannol neu ethnig unigol. Fodd bynnag, mae'r angen hwn yn bodoli o fewn bylchau ehangach, sylweddol yn narpariaeth rhaglenni tramgwyddwyr. Dangosodd dadansoddiad gan yr elusen *Respect*, sy'n gweithio gyda thramgwyddwyr trais domestig, fod darpariaeth genedlaethol ond yn cwrdd â 10% o'r galw gan atgyfeiriadau asiantaeth ar gyfer tramgwyddwyr nad ydynt yn euog yn droseddol (*Respect*, 2013). Mae hyn yn dangos bod angen gwella ymwybyddiaeth o anghenion penodol wrth ddarparu rhaglenni tramgwyddwyr presennol, trwy hyfforddiant ymarferwyr, er mwyn hwyluso gweithio traws-ddiwylliannol effeithiol. Dylai'r hyfforddiant roi sylw i ystyriaethau ymarferol fel anghenion iaith, yn ogystal â chymhwysedd diwylliannol a dealltwriaeth o faterion fel gwrywdod (hynny yw, deall rolau rhywedd, yn enwedig mewn perthynas agos â phartner), sy'n allweddol i lawer o ymyriadau tramgwyddwyr cam-drin domestig (Debbonaire, 2015).

# Y system cyfiawnder ieuenctid

**Argymhellion**

- Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo mwy o flaenoriaeth ac adnoddau i ymchwilio i'r ffactorau cyfrannol sy'n cyfrannu at droseddu plant fel y maent yn ymwneud yn benodol â phlant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; a sut mae'r rhain yn torri i lawr ar draws grwpiau ethnig penodol.
- Dylid defnyddio canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn i lywio ymyriadau atal a dargyfeirio ar gyfer plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n droseddwyr tro cyntaf, neu sydd mewn perygl o droseddu, gyda'r nod o atal y llif at y systemau

cyfiawnder ieuenctid ac oedolion ffurfiol. Gallai modelau dargyfeirio wedi'u teilwra gynnwys y rheini nad oes angen cyfaddef i'r drosedd fel elfen orfodol ar gyfer dargyfeirio.

- Dylai Llywodraeth Cymru annog mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng heddluoedd a Thimau Troseddau Ieuenctid (YOTs) yng Nghymru i gynyddu nifer yr arferion dargyfeirio sy'n dibynnu ar feini prawf mwy hyblyg na chyfaddef gorfodol (e.e. derbyn cyfrifoldeb).
- Dylai rhaglenni adfer neu ymyriadau ar gyfer y rhai sydd eisoes yn ymwneud yn ffurfiol â'r system cyfiawnder ieuenctid hefyd gael eu teilwra ar gyfer plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gyda'r nod o gynyddu ymatebolrwydd.
- Gallai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag YOTs Cymru ac asiantaethau sy'n gweithio'n agos gyda nhw (e.e. gwasanaethau plant ac ysgolion), anelu at arwain dull unigryw wedi'i dargedu at flaenoriaethu anghenion plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymwneud â, neu sydd mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid.

Mae anghyfartalwch hiliol wedi cynyddu yn y system cyfiawnder ieuenctid yn ogystal ag yn y system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd, yn enwedig yn achos opsiynau dedfrydu mwy difrifol fel dedfrydau o garchar. Yn 2019, roedd 49% o'r rheini yn y ddalfa ieuenctid ledled Cymru a Lloegr o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, o'i gymharu ag 18% o'r boblogaeth (10-17 mlynedd) yn ei chyfanrwydd.[6] Mae mwy o ddata gronynnaidd a gedwir ar lefel y Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) yn awgrymu bod rhai grwpiau ethnig yn cael eu gorgynrychioli o ran mathau gwahanol o droseddau neu ddedfrydau (Roberts, Buckland a Redgrave, 2019). Fodd bynnag, nid yw data ethnigrwydd y tu hwnt i grwpiau ethnig eang (hynny yw, Du / Asiaidd / Cymysg / Arall / Gwyn) yn cael ei gofnodi'n ganolog gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB), sy'n golygu bod y ffordd y caiff ei gasglu a'i ddefnyddio yn amrywio ar draws YOTs, sy'n achosi anawsterau wrth nodi patrymau neu dueddiadau.

Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at anghymesuredd hiliol yn y system cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys gorgyffwrdd troseddwyr-

[6] Dadansoddiad: 9% Asiaidd ac Arall, 28% Du a 12% Cymysg. Cymerir y gymhariaeth ethnigrwydd poblogaeth gyffredinol rhwng 10 ac 17 oed o gyfrifiad 2011, felly dylid ei drin fel amcangyfrif. Ffynhonnell: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: tablau atodol 2018 i 2019. Pennod 7 - Plant yn y ddalfa ieuenctid, Tabl 7.11.

dioddefwyr a statws economaidd-gymdeithasol[7] (Roberts, Buckland a Redgrave, 2019; Y Swyddfa Gartref, 2019b). Mae plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder ieuenctid yn fwy tebygol o ddod o deuluoedd incwm isel; byw mewn tai o ansawdd gwael; ac wedi ymddieithrio o addysg o gymharu â'u cymheiriaid Gwyn (Cyngor Cyfiawnder Adferol, 2017). Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd mynd i'r afael ag anghyfiawnder hiliol ar draws y meysydd polisi hyn, yn ogystal â'r system cyfiawnder troseddol, casgliad a dynnwyd yn yr un modd ar gyfer y system cyfiawnder troseddol i oedolion.

Mae angen cynnal gwaith ymchwil pellach i ddeall y ffactorau cyfrannol cydberthynol (fel y rhai a restrir uchod) o ran y ffordd y maent yn ymwneud yn benodol â phlant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a sut mae'r rhain yn rhannu ar draws grwpiau ethnig penodol. Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo mwy o flaenoriaeth ac adnoddau i ddeall hyn, gan ddefnyddio'r data sydd ar gael gan asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus perthnasol a allai daflu goleuni pellach ar y tueddiadau hyn, e.e. data gwaharddiadau ysgolion, data gwasanaethau cymdeithasol a data YOT ar ethnigrwydd, gwendidau ac anghenion. Mae sylfaen dystiolaeth gref ar y gydberthynas rhwng cyswllt ffurfiol ag asiantaethau cyfiawnder troseddol (fel yr heddlu) yn ystod plentyndod a throseddu pellach pan fyddant yn oedolion, gyda phlant yn fwy tebygol o ymatal rhag troseddu os cânt eu dargyfeirio o'r system gyfiawnder ffurfiol (McAra, a McVie, 2007). O ganlyniad, gall targedu ymdrechion atal a dargyfeirio at y rheini sy'n droseddwyr tro cyntaf, neu sydd mewn perygl o droseddu, gan ystyried anghenion penodol plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gael effaith gadarnhaol ar anghyfartalwch hiliol yn y system cyfiawnder ieuenctid, ac ar y system cyfiawnder oedolion yn y tymor hwy, trwy leihau'r llif o dramgwyddwyr tro cyntaf.

Gallai modelau dargyfeiriol wedi'u teilwra gynnwys y rhai nad oes angen cyfaddefiad o'r drosedd fel elfen orfodol ar gyfer dargyfeirio. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y ffordd y mae dargyfeirio yn cael ei gynnig i blant sy'n cyfaddef i droseddau yn unig yn effeithio'n anghymesur ar blant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig oherwydd eu hymddiriedaeth is yn y system gyfiawnder, gan gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau cyfiawnder troseddol ffurfiol (Canolfan Arloesi Cyfiawnder, 2019). Cafodd modelau o'r fath eu hargymell gan adolygiad Lammy a'u datblygu ar ffurf cynlluniau peilot yn Llundain a Swydd Efrog, yn ogystal â deilliant newydd yr heddlu

[7] Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod statws economaidd-gymdeithasol yn rhagfynegydd rhai ymddygiadau sy'n gysylltiedig â thrais difrifol, megis aelodaeth gangiau, ond nid ar gyfer cario / defnyddio arfau (Y Swyddfa Gartref, 2019b).

(Deilliant 22) [8], sy'n cynnwys gweithgareddau dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth. Gallai Llywodraeth Cymru annog mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng heddluoedd ac YOTs yng Nghymru i annog pobl i ymgysylltu ag arferion dargyfeiriol sy'n dibynnu ar feini prawf mwy hyblyg na chyfaddef gorfodol (e.e. derbyn cyfrifoldeb).

Gallai rhaglenni adsefydlu neu ymyriadau ar gyfer y rhai sydd eisoes yn ymwneud yn ffurfiol â'r system cyfiawnder ieuenctid hefyd gael eu teilwra ar gyfer plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gyda'r nod o gynyddu cyfrifoldeb. Er enghraifft, mae tystiolaeth o Unol Daleithiau America yn dangos bod rhaglenni wedi'u haddasu'n ddiwylliannol sy'n anelu at annog ymdeimlad cryf o hunaniaeth ddiwylliannol a balchder ymhlith troseddwyr ifanc yn lleihau camddefnyddio sylweddau yn sylweddol ar ôl ymyrraeth (Gil, Wagner a Tubman, 2004).

Er nad yw cyfiawnder ieuenctid yn faes polisi datganoledig, mae dull 'Cymraeg' unigryw o ymdrin ag elfennau o gyfiawnder ieuenctid wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth bresennol (Haines a Case, 2013). Ers iddo gael ei amlinellu am y tro cyntaf yn 2004 ym Model Biwro Cymru,[9] mae polisi cyfiawnder ieuenctid swyddogol yng Nghymru wedi mabwysiadu dull 'plentyn yn gyntaf, troseddwr yn ail', sy'n cydbwyso anghenion y plentyn yn erbyn y risg i ddiogelwch cymunedol - yn groes i ymarfer sy’n seiliedig ar y drosedd neu’r troseddwr – sy’n nodweddiadol o ran ffocws pendant ar arferion ataliol a dargyfeiriol.[10]

Gallai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag YOTs Cymru ac asiantaethau sy'n gweithio'n agos gyda nhw (e.e. gwasanaethau plant ac ysgolion), anelu at arwain dull yr un mor unigryw ac wedi'i dargedu at flaenoriaethu anghenion penodol plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymwneud â, neu sydd mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid, gan adeiladu ar waith blaenorol cadarnhaol mwy cyffredinol i wella canlyniadau plant. Daeth gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer yr YJB i'r casgliad bod angen hyfforddiant amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol i arfogi ymarferwyr, ac y dylid datblygu a phenderfynu ar hyn, yn ogystal â'r mater o

---

[8] https://yjlc.uk/deferred-prosecution-outcome-22/

[9] Sefydlwyd Model y Biwro yn 2009 gyda'r nod o ddargyfeirio plant allan o'r system cyfiawnder ieuenctid ffurfiol. Sefydlwyd y model fel partneriaeth rhwng Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid Abertawe a Heddlu De Cymru, ac fe’i cefnogir gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ehangach. Roedd y fenter yn ymgorffori'r agwedd ‘plant yn gyntaf, troseddwyr yn ail’ yn ei ymarfer, a oedd yn cynnwys ymateb aml-asiantaeth i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu ieuenctid, gan ymateb mewn ffordd gyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn i droseddu (Haines et al., 2013).

[10] Mabwysiadwyd y dull ‘plentyn yn gyntaf’ yn genedlaethol yn ddiweddarach o fewn strategaeth Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ar gyfer plismona plant a phobl ifanc (NPCC, 2015) ac fe'i ffurfiolwyd ymhellach yn ddiweddarach gan yr YJB yn ei gynllun strategol (2018) a’i safonau (2019).

ddarparu ymyriadau arbenigol neu wedi'u teilwra, ar lefel leol, mewn ymgynghoriad ag ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth. (Mai, Gyateng a Bateman, 2010).

# Mynediad at gyfiawnder

**Argymhellion**

- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu egwyddorion a strategaethau sy’n cael effaith gadarnhaol ar ymddiriedaeth mewn prosesau cyfiawnder troseddol o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig.
- Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o liniaru effaith toriadau i gyllid cymorth cyfreithiol ar fynediad at gyfiawnder i grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Mae cysylltiad annatod rhwng mynediad at gyfiawnder i unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig â lefelau ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol, sydd yn eu tro, yn gysylltiedig ag anghyfartalwch hiliol yn system y llysoedd a chysylltiad blaenorol gyda’r heddlu. Er bod tua thraean (35%) y bobl Wyn a anwyd ym Mhrydain yn credu bod y system cyfiawnder troseddol yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol, mae dros hanner (51%) y bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a aned ym Mhrydain yn credu’r un peth (Bowen, 2017). Yn rhannol, mae'r ‘diffyg ymddiriedaeth’ hwn yn cael ei yrru gan anghyfartalwch hiliol yn y llys, ac yn cael ei gefnogi gan ystadegau megis bod dynion Du 40% yn fwy tebygol nag oedolion Gwyn o orfod ymddangos mewn achos yn Llys y Goron, a 12% yn fwy tebygol o dderbyn dedfryd o garchar yn Llys y Goron o gymharu â diffynyddion Gwyn tebyg (Uhrig, 2016).

Mae ymddiriedaeth ar gyfartaledd is yn y system cyfiawnder troseddol yn lleihau mynediad at gyfiawnder i gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn dwy brif ffordd (Bowen 2017):

1. Mae diffynyddion gwrywaidd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig 52% yn llai tebygol o bledio'n euog yn achosion Llys y Goron o gymharu â chymheiriaid Gwyn;[11] ac

2. Mae canfyddiadau diffynyddion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o driniaeth annheg a lefelau is o ymddiriedaeth yn y llys yn cynyddu'r tebygolrwydd o aildroseddu.

Mae adolygiad o dystiolaeth ar adeiladu ymddiriedaeth o fewn, ac felly cynyddu mynediad at gyfiawnder i gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o Awstralia, Canada, Seland Newydd ac UDA wedi rhannu strategaethau yn saith prif fath (Bowen, 2017). Er na all Llywodraeth Cymru gymhwyso'r egwyddorion hyn yn uniongyrchol i gyrff cyfiawnder troseddol fel Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS), gallant fod yn berthnasol ac yn effeithiol os cânt eu datblygu gan wasanaethau neu asiantaethau sy'n rhan o gyfrifoldebau datganoledig, oherwydd y rhyng-gysylltiad rhwng materion sy’n ymwneud ag anghydraddoldeb hiliol ar draws meysydd polisi.

Dylai camau penodol gyda'r nod o gynyddu mynediad at gyfiawnder i bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ystyried y rhwystr ehangach at gyfiawnder a gyflwynir gan doriadau sylweddol i gymorth cyfreithiol a wnaed gan Lywodraeth y DU ers 2012. Gwelwyd gostyngiad gwirioneddol 37% yng Nghymru o ran gwariant cymorth cyfreithiol rhwng 2011/12 a 2018/19, o £114m (sydd gyfwerth â £128m yn 2018-19) i £80m, o’i gymharu â gostyngiad o 28% yn Lloegr (Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019). Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a thrydydd sector wedi hwyluso mynediad at gyfiawnder mewn ymateb i hyn, gan gynnwys dros £8m mewn cyllid yn ystod 2020 ar gyfer darparwyr gwasanaethau cynghori, er nad yw cymorth cyfreithiol yn gyfrifoldeb datganoledig. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn honni na fydd hyn yn ddigonol i bontio'r bwlch a achosir gan doriadau cymorth cyfreithiol (Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019).

---

[11] Mae pledion euog cynnar yn arwain at ostyngiad o draean yn y ddedfryd a roddir, sy'n golygu bod gwrthod pledio'n euog yn debygol o gynyddu'r tebygolrwydd o ddedfrydau mwy difrifol. Ymhellach i’r ffaith a gyflawnodd y diffynnydd y drosedd ai peidio, credir bod penderfyniadau pledio diffynyddion yn cael eu dylanwadu gan nifer o ffactorau sy’n ymwneud â mynediad at gyfiawnder, gan gynnwys y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd, ymddiriedaeth mewn gostyngiadau dedfrydu a dderbynnir o ganlyniad i bledio’n euog yn gynnar, a hunan-asesiadau o newidiadau gyda rheithgor (Uhrig, 2016).

## Teipoleg o strategaethau ar gyfer adeiladu ymddiriedaeth

**Strategaethau tryloywder:** gall gwneud materion anghyfartalwch hiliol yn fwy agored a dealladwy arwain at fwy o atebolrwydd a gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau cysylltiedig ag anghyfartalwch hiliol a helpu i adeiladu ymddiriedaeth.

**Strategaethau mynediad at gyfiawnder:** mae gwella mynediad at gyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth ar gyfer unigolion o leiafrifoedd ethnig yn system y llysoedd troseddol yn debygol o leihau anghyfartalwch hiliol a meithrin ymddiriedaeth.

**Strategaethau rhagfarn:** dylai dileu rhagfarn, boed yn rhagfarn ymwybodol neu'n rhagfarn anymwybodol, wrth wneud penderfyniadau llys leihau anghyfartalwch hiliol a meithrin ymddiriedaeth.

**Strategaethau amrywiaeth y gweithlu:** dylai cynyddu amrywiaeth ac ymwybyddiaeth o faterion amrywiaeth ymhlith gweithluoedd y llysoedd troseddol oedolion leihau anghyfartalwch hiliol a meithrin ymddiriedaeth.

**Strategaethau tegwch gweithdrefnol:** dylai darparu proses llys wedi'i nodweddu gan barch, dealltwriaeth, niwtraliaeth a llais i bawb, adeiladu ymddiriedaeth o ran tegwch y gyfraith.

**Strategaethau datrys anghydfod amgen:** Gall rhoi diffynyddion mewn fforymau a phrosesau gwneud penderfyniadau amgen, ar wahân i brosesau llys traddodiadol, leihau anghyfartalwch hiliol a meithrin ymddiriedaeth.

**Strategaethau cyfiawnder cymunedol:** Gall rhoi rôl i gymunedau wrth wneud penderfyniadau a chyd-gynhyrchu gwasanaethau, a gosod 'gwella ansawdd bywyd' y cymunedau lleol fel nod symbolaidd ar gyfer y system gyfiawnder, leihau anghyfartalwch hiliol a meithrin ymddiriedaeth.

Atgynhyrchwyd o Bowen, P. (2017). **Building Trust: how our courts can improve the criminal court experience for Black, Asian and minority ethnic defendants**. Llundain: Centre for Justice Innovation.

# Pwerau a liferi polisi Llywodraeth Cymru

Gan nad yw'r mwyafrif o feysydd sy'n ymwneud â pholisi trosedd a chyfiawnder wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mae'r mwyafrif o argymhellion mewn adroddiadau ac ymholiadau presennol wedi'u hanelu at lefel y DU. Er nad yw polisi trosedd a chyfiawnder wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd, gallai Gweinidogion Cymru weithredu camau posibl yn yr adrannau blaenorol gan ddefnyddio naill ai eu pwerau meddal neu trwy eu dylanwad dros feysydd polisi sy'n cael effaith ar gyfraddau troseddu. Er enghraifft, gall Llywodraeth Cymru weithredu i wneud gwell defnydd o setiau data presennol a allai daflu goleuni pellach ar yrwyr sy'n cynyddu anghymesuredd hiliol yn y system gyfiawnder yng Nghymru. Gallai hefyd adeiladu ar feysydd presennol lle mae dulliau Cymru o ran mynd i'r afael â throseddu a chyfiawnder wedi gwyro oddi wrth genhedloedd eraill y DU, e.e. wrth fabwysiadu agwedd 'plentyn yn gyntaf' tuag at gyfiawnder ieuenctid, neu lle mae posibilrwydd i wneud hynny yn y dyfodol, e.e. trwy berthynas Llywodraeth Cymru â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

# Cyfeirnodau


Abrams, D., Swift, H. J., and Mahmood, L. (2016). **Prejudice and unlawful behaviour: Exploring levers for change.** Adroddiad Ymchwil 101, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ar gael o: **https://bit.ly/3qDqdoV** (Saesneg yn unig)

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO). (2005). **Hate Crime: Delivering a Quality Service. Good Practice and Tactical Guidance.** Ar gael o: **https://bit.ly/3nT173n** (Saesneg yn unig)

Banga, B., and Roy, S. (2020). **The Impact of the Dual Pandemics: VAWG and COVID-19 on Black and Minoritised Women and Girls**. Llundain: Imkaan. Ar gael o: **https://bit.ly/2LCGCv2** (Saesneg yn unig)

Bates, L. (2020). **Honor-Based Abuse in England and Wales: Who Does What to Whom?** Violence Against Women, 1-22.

Bowen, P. (2017). **Building Trust: how our courts can improve the criminal court experience for Black, Asian and Minority Ethnic defendants**. Llundain: Centre for Justice Innovation. Ar gael o: **https://bit.ly/2LLjydp** (Saesneg yn unig)

Centre for Justice Innovation. (2019). **Who should be eligible for youth diversion? Evidence and practice briefing.** Ar gael o: **https://bit.ly/2KsKbTL** (Saesneg yn unig)

Chakraborti, N., and Garland, J. (2012). **Reconceptualising hate crime victimization through the lens of vulnerability and "Difference"**. *Theoretical Criminology, 16(4)*, pp. 499–514.

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. (2019). **Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru**. Hydref 2019. Ar gael o: **https://bit.ly/3sCzPC6**

Davidge, S. (2020). **A Perfect Storm: The Impact of the Covid-19 Pandemic on Domestic Abuse Survivors and the Services Supporting Them**. Bryste: Cymorth i Fenywod. Ar gael o: **https://bit.ly/3sxIXYJ** (Saesneg yn unig)

Debbonaire, T. (2015). **Responding to diverse ethnic communities in domestic violence perpetrator programmes**. Work with perpetrators European network. Ar gael o: **https://bit.ly/3sCFFDk** (Saesneg yn unig)

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2020). **Ailadeiladu Cymru mwy cyfartal a theg: Ymateb y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**. Mehefin 2020. Ar gael o: **https://bit.ly/3sGl6pB**

Ford, K., Barton, E.R., Newbury, A., Hughes, K., Bezeczky, Z., Roderick, J., and Bellis, M.A. (2019). **Understanding the prevalence of adverse childhood experiences (ACEs) in a male offender population in Wales: the prisoner ACE survey**. Ar gael o: **https://bit.ly/3qyhNPr** (Saesneg yn unig)

Gil, A. G., Wagner, E. F., and Tubman, J. G. (2004). **Culturally sensitive substance abuse intervention for Hispanic and African American adolescents: empirical examples from the Alcohol Treatment Targeting Adolescents in Need (ATTAIN) Project**. *Addiction, 99(2),* 140-150.

Jones, R. (2020). **Prison, Probation and Sentencing in Wales: 2019 Factfile**. Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd. Medi 2020. Ar gael o: **https://bit.ly/2Nkhk5d** (Saesneg yn unig)

Haines, K., Case, S., Davies, K., and Charles, A. (2013). **The Swansea Bureau: A model of diversion from the youth justice system**. *International Journal of Law, Crime and Justice, 41(2),* 167-187

Heimer, R. D. B. (2019). **A Roof, Not A Home: The housing experiences of Black and minoritised women survivors of gender-based violence in London**. Llundain: Cymorth i Fenywod Lladin Americanaidd. Ar gael o: **https://bit.ly/39Oc6pZ** (Saesneg yn unig)

Y Swyddfa Gartref. (2013). **An overview of hate crime in England and Wales: appendix tables**. Appendix Table 1.01: Hate crimes in England and Wales by police force area, 2012/13. Ar gael o: **https://bit.ly/3ir3x8h** (Saesneg yn unig)

Y Swyddfa Gartref. (2016). **Violence Against Women and Girls Services: Supporting Local Commissioning**. Ar gael o: **https://bit.ly/2KvGRr6** (Saesneg yn unig)

Y Swyddfa Gartref. (2019a). **Police powers and procedures, England and Wales year ending 31 March 2019**. Ar gael o: **https://bit.ly/2M4BCiB** (Saesneg yn unig)

Y Swyddfa Gartref. (2019b). **An analysis of indicators of serious violence: Findings from the Millennium Cohort Study and the Environmental Risk (E-Risk) Longitudinal Twin Study**. Ar gael o: **https://bit.ly/38UpLN0** (Saesneg yn unig)

Y Swyddfa Gartref. (2020a). **Hate crime, England and Wales, 2019 to 2020: Appendix tables**. Appendix Table 1: Hate crimes recorded by the police in England and Wales by police force area, 2019/20. Ar gael o: **https://bit.ly/3sNtpQK** (Saesneg yn unig)

Y Swyddfa Gartref. (2020b). **Hate crime, England and Wales, 2019 to 2020**. Ar gael o: **https://bit.ly/2XSExNN** (Saesneg yn unig)

Jones, R., and Jones, R.W. (2019). **Justice at the Jagged Edge in Wales**. Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd. Mawrth 2019. Ar gael o: **https://bit.ly/35TmtaQ** (Saesneg yn unig)

Lammy, D. (2017). **The Lammy Review: An independent review into the treatment of, and outcomes for, Black, Asian and Minority Ethnic individuals in the Criminal Justice System**. Ar gael o: **https://bit.ly/3p1PfNS** (Saesneg yn unig)

Larasi, M. (2013). **A fuss about nothing? Delivering services to black and minority ethnic survivors of gender violence: The role of the specialist black and minority ethnic women's sector**. *Moving in the shadows: Violence in the lives of minority women and children*, pp.267-281.

Macfarlane, A.J., and Dorkenoo, E., 2015. **Prevalence of female genital mutilation in England and Wales: National and local estimates**. City University London in association with Equality Now.

May, T., Gyateng, T., and Bateman, T. (2010). **Exploring the needs of young Black and Minority Ethnic offenders and the provision of targeted interventions**. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ar gael o: **https://bit.ly/3nYKXpp** (Saesneg yn unig)

McAra, L., and McVie, S. (2007). **Youth justice? The impact of system contact on patterns of desistance from offending**. European journal of criminology, 4(3), 315-345.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). **Female Offender Strategy**. Ar gael o: **https://bit.ly/36aWL1R** (Saesneg yn unig)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). (2019). **Domestic abuse prevalence and victim characteristics - Appendix tables**. Table 6A. Ar gael o: **https://bit.ly/3sFufPt** (Saesneg yn unig)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). **Victims of crime**. Ethnicity Facts and Figures: Crime, justice and the law. Ar gael o: **https://bit.ly/3sFgUXa** (Saesneg yn unig)

Race Alliance Wales. (2020). **Our Manifesto for an Anti-Racist Wales**. Ar gael o: **https://bit.ly/3oXNmBZ** (Saesneg yn unig)

Respect. (2013). **Domestic Violence perpetrator interventions: Commissioning guidance summary for local commissioners**. Ar gael o: **https://bit.ly/2XSFJRh** (Saesneg yn unig)

Restorative Justice Council. (2017). **Working with black, Asian and minority ethnic children in the youth justice system: A guide for restorative justice practitioners**. Ar gael o: **https://bit.ly/39Oeflx** (Saesneg yn unig)

Roberts, M., Buckland, G., and Redgrave, H. (2019). **Examining the youth justice system: What drove the falls in first time entrants and custody, and what should we do as a result?** Llundain: Crest Advisory. Ar gael o: **https://bit.ly/39Oemxt** (Saesneg yn unig)

Saltus, R. (2020). **Holding on to the Gains: Understanding the impact of the COVID-19 crisis on BAME Communities in Wales**. EYST Cymru.

Shingler, J., and Pope, L. (2018). **The effectiveness of rehabilitative services for Black, Asian and Minority Ethnic people: a rapid evidence assessment**. Ministry of Justice Analytical Series. Ar gael o: **https://bit.ly/39HLOWp** (Saesneg yn unig)

Siddiqui, H., and Patel, M. (2011). **Safe and Sane: A model of intervention on domestic violence and mental health, suicide and self-harm amongst black and minority ethnic women.** Llundain: Southall Black Sisters. Ar gael o: **https://bit.ly/39ZWzDJ** (Saesneg yn unig)

Thiara, R.K., and Roy, S. (2012). **Vital Statistics 2 Key Findings Report on Black, Asian, Minority Ethnic and Refugee women and children facing violence and abuse**. Llundain: Imkaan.

Uhrig, N. (2016). **Black, Asian and Minority Ethnic disproportionality in the Criminal Justice System in England and Wales**. Ministry of Justice Analytical Services. Ar gael o: **https://bit.ly/39Oevkv** (Saesneg yn unig)

Walters, M. A., Brown, R., and Wiedlitzka, S. (2016a). **Preventing hate crime: emerging practices and recommendations for the effective management of**

**criminal justice interventions**. Adroddiad Prosiect. Sussex Crime Research Centre, Sussex, UK. Ar gael o: **https://bit.ly/2XVBS6e** (Saesneg yn unig)

Walters, M.A., Brown, R., and Wiedlitzka, S. (2016b). **Causes and motivations of hate crime. Research Report 102. Equality and Human Rights Commission**. Ar gael o: **https://bit.ly/3bTNwGO** (Saesneg yn unig)

Wiegand, G., and Cifuentes, R. (2019). **Experiences of Belonging & Living in Wales: Findings from the All Wales Survey for Ethnic Minority People, 2018**. EYST Cymru. Rhagfyr 2019. Ar gael o: **https://bit.ly/2LKG6uS** (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru. (2014). **Tackling Hate Crimes and Incidents – A Framework for Action**. Ar gael o: **https://bit.ly/3ioUjJX** (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru. (2020). **Nawr yw'r amser i weithredu yn erbyn anghydraddoldeb hiliol: Llywodraeth Cymru yn gosod llwybr ar gyfer newid systemig a chynaliadwy i Gymru**. Datganiad i'r Wasg. 24 Medi 2020. Ar gael o: **https://bit.ly/3irVus7**

Cymorth i Ferched Cymru. (2018). **State of the Sector: Building sustainable specialist services in Wales**. Caerdydd: Cymorth i Ferched Cymru. Ar gael o: **https://bit.ly/3itcL4c** (Saesneg yn unig)

Williams, M., and Tregidga, J. (2013). **All Wales Hate Crime Research Project: Research Overview & Executive Summary**. Race Equality First. Ar gael o: **https://bit.ly/2M1GmFx** (Saesneg yn unig)

Cymorth i Fenywod (2009). **The Survivor's Handbook: Full version**. Ar gael o: **https://bit.ly/38Uugam** (Saesneg yn unig)

# Cyfeirnodau at y gyfres adrodd

Dyma un adroddiad mewn cyfres o chwech, gyda phob un yn ffocysu ar faes polisi penodol er mwyn llywio datblygiad y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae'r gyfres o adroddiadau yn cynnwys:

Arday, J. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Addysg**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hatch, S., Woodhead, C., Moriarty, J., Rhead, R., a Connor, L. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hatch, S., Woodhead, C., Rhead, R., a Connor, L. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Cyflogaeth ac Incwm.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Price, J. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Tai a Llety.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Roberts, M. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Trosedd a Chyfiawnder.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Showunmi, V., a Price, J. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

# Atodiad 2:
# Argymhellion cylchol

| Argymhellion cylchol | Maes ffocws |
|---|---|
| Cynyddu a thargedu cyllid ar gyfer gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn dilyn y pandemig Coronafeirws. | Sut gall gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) fod yn gynaliadwy er mwyn diwallu'r galw yn dilyn y pandemig Coronafeirws? |
| Gwella cefnogaeth i ddioddefwyr troseddau casineb a chyfeiriadau gwell at ddatrysiadau cyfreithiol a sefydliadol, gan gynnwys trwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth. | Pa gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn cael eu cefnogi er mwyn sicrhau cyfiawnder? |
| Gweithio i sefydlu dulliau ataliol pellach ym maes troseddau casineb. | Sut y gall dulliau ataliol cyfredol lywio gwaith troseddau gwrth-gasineb ehangach? Pa rôl sydd gan Lywodraeth Cymru i'w chwarae wrth gefnogi hyn? |
| Cynnal neu gynyddu'r cyllid cyfredol ar gyfer gwasanaethau troseddau casineb, gyda'r nod o ehangu'r ddarpariaeth gyfredol. | Pa adnoddau sydd eu hangen er mwyn sicrhau ymateb effeithiol i droseddau casineb? |
| Cynnal ymchwil pellach a gwell i gyffredinolrwydd achosion o droseddau casineb ledled Cymru. | Pwy sy'n dioddef troseddau casineb yng Nghymru? Pa mor gyffredin yw troseddau casineb yng Nghymru? |
| Casglu data ethnigrwydd yn well yn y system cyfiawnder troseddol. | Sut gall Llywodraeth Cymru gefnogi casglu data ethnigrwydd cadarn a chywir yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru? |
| Ymagwedd 'egluro neu ddiwygio' tuag at wahaniaethau hiliol yn y system cyfiawnder troseddol. | Sut gall Llywodraeth Cymru gefnogi 'egluro neu ddiwygio'? A oes meysydd |

| Argymhellion cylchol | Maes ffocws |
|---|---|
| | eraill y gellid ymestyn yr egwyddor hon iddynt? |
| Cynyddu mynediad at gyfiawnder i gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig trwy amryw o ffyrdd, gan gynnwys cyfeirio, codi ymwybyddiaeth ac ariannu gwasanaethau, gan gynnwys cymorth cyfreithiol. | Sut y gellir cefnogi cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i gael mynediad at gyfiawnder? Pa rwystrau diwylliannol, sefydliadol neu ddosbarthiadol sydd ar waith ar hyn o bryd i atal mynediad at gyfiawnder i rai cymunedau? |
| Pwerau a liferi polisi Llywodraeth Cymru. | Sut y gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei rym ymgasglu a'i liferi polisi anffurfiol i gefnogi cydraddoldeb hiliol yn y system cyfiawnder troseddol? |

## Manylion yr Awdur

Mae **Manon Roberts** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Manon Roberts**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
manon.roberts@wcpp.org.uk

OGL This report is licensed under the terms of the Open Government License

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru